**CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL**

# Adroddiad Blynyddol 2023-2024

Mae gan Cyngor Cymuned Llanwinio 7 Cynghorydd sydd wedi bod yn gweithio'n gydwybodol dros yr holl Blwyf.

Fe gyfarfododd y Cynghowryr yn reolaidd bob dau fis i drafod a codi materion o bwys i'r plwyf. Mae'r Cynghorydd Sir hefyd wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd i roi a derbyn diweddaraid a gwybodaeth am ddigwyddiadau a phroblemau o fewn y plwyf.

Mae'r Cyngor yn derbyn Praesept o £4000 wrth preswylwyr y plwyf trwy eu anfonebau treth cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn derbyn Budd Cymdeithasol o'r tyrbeini gwynt sydd wedi eu lleoli o fewn y plwyf.

Mi'r oedd yr incwm yma yn ddigonol i dalu am gyflog y clerc, costau adnewyddu y goleuadau stryd (cost sydd wedi ei ddosbarthu allan dros 7 mlynedd), cynnal y wefan, archwilwyr, yswiriant, aelodaeth ICO a Un Llais Cymru, ynghyd a chost trydan i'r neuadd, a chost dŵr i'r caeau chwarae a chyfraniad tuag at y gwaith atgyweirio yn yr Eglwys.

Codwyd nifer o faterion dros y flwyddyn gan gynnwys cyflwr heolydd, llwybrau cyhoeddus, ceisiadau cynllunio, anghenion diffibriliwr a gwastaff anghyfreithlon i nodi ond ychydig.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol mi'r oedd gan y Cyngor £36,866.87 (gyda £34,000 wedi ei glustnodi ar gyfer offer newydd i Barc Blaenwaun) yn y cyfrif banc. Gellir gweld y cyfrifon llawn ar we-fan y Cyngor.

Blaenoriaeth y Cyngor yw i godi a datrys unrhyw bryderon sydd yn cael eu codi gan breswylwyr y plwyf ermwyn sicrhau fod y pentrefi yn ffynnu ac yn parhau i fod yn bentrefi pleserus a chymwynasgar.

**Clerc/Clerk: Mrs Liza Jones, Treto Isaf, Trelech, Caerfyrddin/Carmarthen, SA33 6SH**
**Ffôn/Tel: 07419137565 ebost/email : clerk@llanwiniocommunitycouncil.com**